I S - D D E D D F W R I A E T H

# 2011 Rhif 14

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 12(3), 19(1), 203(9) a 204(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn.

**Cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 1 Awst 2011 ac maent yn gymwys i bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru ac i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru(**2**).

(2) Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr "blwyddyn 4" ("*year 4*") yw'r flwyddyn ysgol pan fo mwyafrif y plant ynddi naill ai'n 8 neu'n 9 mlwydd oed;

ystyr "blwyddyn dderbyn" ("*reception year*") yw'r flwyddyn ysgol pan fo mwyafrif y plant ynddi naill ai'n 4 neu'n 5 mlwydd oed;

ystyr "plentyn perthnasol" ("*relevant child*") yw plentyn yn y flwyddyn dderbyn neu ym mlwyddyn 4;

---

(**1**) 2006 p.42.

(**2**) Wedi ei sefydlu gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009 (O.S. 2009/2058 (Cy. 177)).

ystyr “Rhaglen Mesur Plant Cymru” (“*the Child Measurement Programme for Wales*”) yw’r rhaglen flynyddol y caiff plant perthnasol eu pwyso a'u mesur oddi tani mewn ysgolion.

**Cydweithredu at ddibenion Rhaglen Mesur Plant Cymru**

**2.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol gydweithredu ag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru i hwyluso perfformiad Rhaglen Mesur Plant Cymru a'i chyflawni.

(2) Rhaid i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru gydweithredu â'r Byrddau Iechyd Lleol i hwyluso perfformiad Rhaglen Mesur Plant Cymru a'i chyflawni.

*Edwina Hart AC*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad 2011